Croeso i

# Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod

## Amseroedd Ysgol | School Times

Meithrin: 9:00yb - 12:00yp | Nursery: 9:00am - 12:00pm

Derbyn i Flwyddyn 6: 9:00yb - 3:30yp | Reception to Year 6: 9:00am - 3:30pm

## Aelodau Staff | Staff Members

Pennaeth Gweithredol: Mr J Hallett | Executive Headteacher: Mr J Hallett

Dirprwy Bennaeth: Mr A Hopton (CADY) | Deputy Headteacher: Mr A Hopton (ALNCo)

Ysgrifenyddes: Ms Sh Price | Secretary: Ms Sh Price

## Athrawon | Teachers

Mrs M Sellick Miss I Bell Mrs A James Mr A Hopton

## Cynorthwywyr | Learning Support Assistants

Miss C Pugh (CALU/HLTA) Miss E Pash (CALU/HLTA) Miss A Thompson Miss L Mackenzie

Miss Ch Jenkins

## Gofalwr | Cartaker

Mr M Webb

## Gorychwylwyr Cinio | Lunchtime Supervisors

Miss C Phipps Mrs Sh Johnson

## Staff y Gegin | Kitchen Staff

Mr I Faulkner Mrs T Waters Mrs M Aurelius

**Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod**
Pennaeth: Mr. Jamie Hallett | Dirprwy Bennaeth: Mr. Aled Hopton
Ffôn: 01443 875528 | E-bost: ygbpa@caerphilly.gov.uk | Trydar: @yggf123

Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,

Mae'n bleser eich croesawu i Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod. Ein nod yma yw darparu awyrgylch hapus, diogel, teuluol lle caiff pob unigolyn ei drin â pharch a sensitifrwydd. Ein nod yw meithrin unigolion iach, hyderus, annibynnol sy'n ymrwymo i ddysgu gydol oes ac i fod yn ddinesydd da. Credwn fod partneriaeth agos rhwng y cartref a'r ysgol yn hynod o bwysig, a gofynnir i rieni arwyddo cytundeb cartref-ysgol i ymrwymo i'r bartneriaeth hon. Mae cefnogaeth a chymorth rhieni yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi'n fawr.

Diolch yn barchus,

Mr J Hallett

**Diogelu Plant**

Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. O dan y Ddeddf Plant, mae'n ofynnol i ni drosglwyddo gwybodaeth sy'n achosi pryder am les plentyn.

**Gwusg Ysgol**

Mae gwisg ysgol yn hanfodol ar gyfer creu ymdeimlad o berthyn a balchder tuag at gymuned yr ysgol. Pwysleisiwn bwysigrwydd gwisgo'r dillad cywir bob amser. Gallwch brynu gwisg ysgol o 'C&C Sports' ym Margod.

- Siwmper Werdd neu Gardigan
- Crys Polo Gwyn
- Trowsus Llwyd, Sgert neu Pinafore
- Esgidiau Du

**Gwisg Ymarfer Corff**

- Siorts Du neu Legins
- Esgidiau Ymarfer
- Crys-t Gwyn Plaen (gyda neu heb logo yr ysgol)

**Ni chaniateir unrhyw emwaith heblaw am oriawr a stydiau clust*

Dear Parents/Guardians,

It's a pleasure to welcome you to Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod. Our aim here is to provide a happy, safe, family atmosphere where every individual is treated with respect and sensitivity. We aim to nurture healthy, confident, independent individuals who commit to lifelong learning and to being a good citizen. We believe that a close partnership between the home and school is extremely important, and parents are asked to sign a home-school agreement to commit to this partnership. Parents' support and help is very much welcomed and appreciated.

Diolch yn barchus,

Mr J Hallett

**Safeguarding**

We all have a responsibility to safeguard and promote the welfare of children. Under the Children's Act, we are required to pass on information which gives rise to concern about a child's welfare.

**School Uniform**

School uniform is essential for creating a sense of belonging and pride towards the school community. We emphasise the importance of wearing the correct clothing at all times. You can purchase school uniform from 'C&C Sports' in Bargoed.

- Green Jumper or Cardigan
- White Polo Shirt
- Grey Trousers, Skirt or Pinafore
- Black Shoes

**PE Kit**

- Black Shorts or Leggings
- Trainers
- Plain White T-shirt (with or without the school logo)

**No jewellery is permitted apart from a watch and ear studs*

## Cymreictod

Fel ysgol, rydym yn ymfalchïo yn ein gallu i siarad Cymraeg ac rydym yn dathlu ein hetifeddiaeth yn gyson yn yr ysgol. Mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu canmol yn gyson gan ein tîm Siarter Iaith.

## Cinio Ysgol

Darperir pryd canol dydd yn ddyddiol o'r Derbyn i Flwyddyn 6. O fis Medi 2023, bydd y pryd hwn am ddim i bob disgybl oed cynradd yng Nghymru. Os ydych yn derbyn Cinio Ysgol Am Ddim, dylid dal i wneud y cais hwn gan y bydd hwn hefyd yn dod gyda grant gwisg ysgol. Wedi dweud yr uchod, mae croeso i ddisgyblion ddod â phecyn bwyd iachus eu hunain – ni chaniateir diodydd pefriog, melysion a siocled.

## Byrbrydau

Darperir llaeth yn ddyddiol i bob disgybl o'r Meithrin i Flwyddyn 2. Anogir yr holl ddisgyblion i yfed digon o ddŵr yn ystod y dydd ac i ddod â darn o ffrwyth ar gyfer amser egwyl.

## Ymweld

Gwahoddir rhieni yn ffurfiol i drafod cynnydd eu plentyn ddwywaith y flwyddyn. Os hoffech drafod unrhyw faterion ar adegau heblaw'r rhain, cysylltwch â swyddfa'r ysgol i drefnu cyfarfod neu alwad ffôn.

## Presenoldeb

Mae'r ysgol yn cychwyn yn brydlon am 9:00yb ac mae croeso i chi gyrraedd o 8:50yb. Cyfrifoldeb y rhieni yw sicrhau bod eu plant yn cyrraedd giatiau'r ysgol yn ddiogel ac yn dychwelyd adref yn ddiogel ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Dylid hysbysu'r swyddfa o unrhyw newidiadau i drefniadau amser adref cyn diwedd y diwrnod ysgol.

## Cyfleoedd Cyfartal

Ein polisi yw i sicrhau bod pob plentyn ac aelod o staff yn cael mynediad cyfartal i bob agwedd o fywyd yr ysgol.

## Welshness

As a school, we take great pride in our ability to speak Welsh and we celebrate our heritage regularly in school. Welsh speakers are praised regularly by our Welsh Charter team.

## School Meals

A midday meal is provided daily from Reception to Year 6. From September 2023, this meal will be free to every primary aged pupil in Wales. If you are in receipt of Free School Meals, this application should still be made as this will also come with a school uniform grant. Having said the above, pupils are welcome to bring their own healthy packed lunch – fizzy drinks, sweets and chocolate are not allowed.

## Light Refreshments

Milk is provided daily for all pupils in Nursery to Year 2. All pupils are actively encouraged to drink plenty of water during the day and to bring a piece of fruit for break time.

## Visiting

Parents are formally invited to discuss their child's progress twice a year. If you would like to discuss any matters at times other than these, please contact the school office to arrange a meeting or a phone call.

## Attendance

School starts promptly at 9:00am and you are welcome to arrive from 8:50am. It is parents' responsibility to ensure that their children arrive safely at the school gates and return home safely at the end of the school day. The office should be notified of any changes to the usual home time arranges before the end of the school day.

## Equal Opportunities

It is our policy to ensure that every child and member of staff is given equal access to all aspects of school life.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod, rydym yn dathlu ein gwahaniaethau a'n unigrywiaeth. Mae gan bob unigolyn hawl i gael mynediad i'r cwricwlwm ac rydym yn sicrhau ein bod yn cynllunio'n ofalus ac yn cefnogi pob disgybl i gyrraedd ei botensial. Mae'r Cydlynydd ADY yn gweithio'n agos gyda'r staff a'r rhieni i sicrhau bod gweithgareddau ac ymyrraethau priodol yn eu lle. Rydym yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth enfawr o asiantaethau allanol, sy'n rhoi cyngor arbenigol i ni os a phan fo angen.

## Gweithdrefn Cwyno

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion ynglŷn â'r modd y mae Cyrff Llywodraethol ysgolion a'r Awdurdodau Addysg yn gweithredu mewn perthynas â'r cwricwlwm a materion eraill. Mae copi o'r drefn hon ar gael ar gais gan yr ysgol. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithlon trwy drafod gyda'r pennaeth. Dyma'r cam rhesymol cyntaf, a byddai'r Corff Llywodraethol yn disgwyl i hyn gael ei wneud cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol (mewn amgylchiadau eithriadol).

## Addysg Cydberthynal a Rhywioldeb (ACRh)

Ein prif ffocws yw meithrin perthnasoedd cadarnhaol sy'n dathlu cyfeillgarwch a gwerthfawrogi ein gilydd. Gwnawn hyn trwy ein rhaglen o wasanaethau, amser cylch, a gweithgareddau personol a chymdeithasol yn y dosbarth. Bydd disgyblion yn cael cyfleoedd i ddysgu am newidiadau i'r corff (yn briodol i'w hoedran ac yn unol â chanllawiau Cenedlaethol) fel rhan o'r cwricwlwm.

## Tasgau Cartref

Gofynnwn i rieni dreulio o leiaf ddeg munud y dydd yn darllen gyda'u plant a bod amser ychwanegol yn cael ei fuddsoddi i ymarfer sillafu gyda'u plant.

## Meddyginiaeth a Diogelwch yn yr Haul

Ar wahân i feddyginiaeth sy'n ofynnol yn ddyddiol, nid ydym yn rhoi unrhyw feddyginiaeth yn yr ysgol. Lle gweinyddir meddyginiaeth yn rheolaidd, cyfrifoldeb y rhieni yw sicrhau bod yr ysgol yn cadw stoc ddigonol, bod y gwaith papur perthnasol wedi'i gwblhau, a bod yr holl feddyginiaeth yn gyfredol. Ar gyfer meddyginiaeth cyfnodol, mae croeso i rieni ddod i'r ysgol i roi meddyginiaeth. Dylid rhoi eli haul ymlaen cyn i blant ddod i'r ysgol gan na chaniateir eli haul ar dir yr ysgol. Mae hetiau haul yn hanfodol ar ddiwrnodau cynnes.

## Additional Learning Needs (ALN)

At Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod, we celebrate our differences and our uniqueness. Each individual is entitled to access to the curriculum and we ensure that we plan carefully and support each pupil in reaching their potential. The ALN Coordinator works closely with both staff and parents to ensure appropriate activities and interventions are in place. We work closely with a huge range of external agencies, who provide us with specialist advice if and when needed.

## Complaints Procedure

The Local Education Authority has established a procedure to consider complaints concerning the way schools' Governing Bodies and the Education Authorities act in relation to the curriculum and other matters. A copy of this procedure is available upon request from the school. It is emphasised, however, that many complaints can be dealt with quickly and efficiently by discussing with the headteacher. This is the first reasonable step, and the Governing Body would expect that this is done before presenting the complaint formally (in exceptional circumstances).

## Relationships and Sexuality Education (RSE)

Our main focus is to foster positive relationships which celebrate friendship and valuing each other. We do this through our programme of assemblies, circle time, and personal and social activities in the classroom. Pupils will have opportunities to learn about changes to the body (age appropriate and in line with National guidance) as part of the curriculum.

## Home Tasks

We request that parents spend at least ten minutes per day reading with their children and that additional time is invested in practising spellings with their children.

## Medicines and Sun Safety

Apart from medication which is required on a daily basis, we do not administer any medication at school. Where regular medication is administered, it is parents' responsibility to ensure that the school holds sufficient stock, relevant paperwork has been completed, and that all medication is in date. For periodic medication, parents are welcome to come in to school to administer. Sun cream should be applied before children come to school as sun cream is not permitted on the school premises. Sun hats are essential on warm days.